## Taflen Wybodaeth Adeiladu Gwent Decach

Isod mae tabl sy'n cynnwys 8 Egwyddor Marmot, a grëwyd gan y Sefydliad Tegwch Iechyd yr UCL fel canllaw i'w ddilyn i helpu pawb i fyw bywydau iach a bodlon.

| Egwyddor Marmot | Beth mae hyn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.** | Sicrhau bod rhieni/teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn i'w plant fod yn iach |
| **Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y mwyaf o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau.** | Sicrhau bod pawb yn cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth dda a chefnogol |
| **Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb** | Sicrhau bod pob cyflogwr yn cynnig cyflog da a gweithio hyblyg |
| **Sicrhau safon byw iach i bawb** | Mae gan bawb yr holl angenrheidiau sylfaenol, gwybodaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt |
| **Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy** | Mae pawb yn byw mewn cartrefi cynnes, sych ac mae ganddynt fynediad at leoedd y gallant wneud gweithgaredd corfforol ynddynt |
| **Cryfhau rôl ac effaith atal afiechydon.** | Mae pawb yn cael cefnogaeth i fyw bywydau hir ac iach heb salwch y gellir ei atal |
| **Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'u canlyniadau.** | Caiff pawb eu trin â pharch ac urddas mewn gwaith, addysg a gwasanaethau cyhoeddus |
| **Mynd ar drywydd cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd.** | Gall pawb ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac mae pob cartref yn cael ei ddiogelu rhag newidiadau i'r hinsawdd a'r amgylchedd |

Isod ceir rhestr o rai camau gweithredu a argymhellir o'r adroddiad newydd ar gyfer Gwent, a ysgrifennwyd gan Sefydliad Tegwch Iechyd Coleg Prifysgol Llundain, fel modd o wneud Gwent yn lle tecach ac iachach i bawb fyw, gweithio a chwarae ynddi.

**Addysg**

- Gwell darpariaeth gofal plant mewn ardaloedd y mae ei ei angen
- Sicrhau fod pob disgybl blwyddyn 11 yn gorffen yr ysgol gydag o leiaf 5 TGAU da
- Gwella argaeledd o ran gwybodaeth am gyfleoedd Addysg Bellach (coleg ac ati)
- Mwy o deithio fforddiadwy i'r ysgol
- Arweiniad gwell o ran gyrfaoedd mewn ysgolion
- Mwy o gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion
- Lleihau absenoldebau ysgol
- Cynyddu cyfleoedd prentisiaeth
- Gwella cyfleoedd addysg i oedolion
- Gwella'r cyngor ar reolaeth ariannol mewn ysgolion a gweithleoedd

**Cymuned:**

- Mwy o wasanaethau ieuenctid
- Cyfleoedd gwirfoddoli i oedolion
- Lleihau tlodi hylendid
- Dileu'r angen i bobl ddefnyddio banciau bwyd
- Rhagor o gyngor o ran lles cymdeithasol, cyngor cyfreithiol a chyngor ar ddyled
- Mynd i'r afael â thlodi aelwydydd
- Adfywio a chreu strydoedd mawr a chanol trefi iach
- Gwella mynediad at y mannau gwyrdd sydd a’r safleoedd treftadaeth lleol sydd ar gael

**Cyflogaeth:**

- Gwell polisïau ar absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Pob cyflogwr yng Ngwent i dalu'r cyflog byw gwirioneddol
- Lleiheir hiliaeth a'i ganlyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chyflogwyr
- Gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau gwaith mwy hyblyg ac o ansawdd da

**Tai a Thrafnidiaeth:**

- Gwella ansawdd tai yn y sector rhentu preifat
- Lleihau'r risg fod tai yn arwain at iechyd corfforol a iechyd meddyliol gwael
- Creu seilwaith cerdded a beicio newydd
- Gwneud trafnidiaeth gyhoeddus (bysiau a thrên) yn hygyrch i bawb ledled Gwent
- Gwneud cludiant i ysgolion a cholegau yn hygyrch i bawb ledled Gwent